Department of Health & Social Care

Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk
Food Standards Agency

# Dirprwy Gadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd

## Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

## Dyddiad cau: Canol dydd, ddydd Llun, 27 Gorffennaf 2026
## Cyfeirnod: VAC-8961

Regulated by The Commissioner for Public Appointments

Dilynwch ni ar X (Twitter.com) @appointmentsdh

# Cynnwys


Adran 1 – Y Rôl ....... 2

1.1 Cyflwyniad ....... 2

1.2 Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person ....... 3

1.3 Yr Asiantaeth Safonau Bwyd: ei rôl a'i chyfrifoldebau ....... 6

Adran 2: Recriwtio ....... 8

2.1 Gwneud cais ....... 8

2.2 Y broses asesu ....... 15

2.3 Sut y byddwn ni'n rheoli eich gwybodaeth bersonol ....... 20

Atodiad A – Yr Asiantaeth Safonau Bwyd: Deddfwriaeth a Gwybodaeth Bellach ....... 22

# Adran 1 – Y Rôl

## 1.1 Cyflwyniad

**Gair gan yr Athro Susan Jebb, Cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd**

Rwyf wrth fy modd eich bod chi'n ystyried gwneud cais am rôl anweithredol fel Dirprwy Gadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB).

Mae'r ASB yn adran reoleiddio, sy'n gyfrifol yn ôl y gyfraith am ddiogelu iechyd y cyhoedd, a buddiannau ehangach defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Ein prif nod yw sicrhau bod y cyhoedd yn gallu ymddiried bod eu bwyd yn ddiogel ac yn ddilys. Rydym yn gweithredu ar sail gwyddoniaeth a thystiolaeth, gan roi iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr yn gyntaf wrth wneud ein penderfyniadau. Rydym yn gweithredu gyda lefelau uchel o dryloywder, gan gynnwys cynnal ein cyfarfodydd Bwrdd yn gyhoeddus a gwahodd cwestiynau gan y cyhoedd ar ein gwaith, a hynny i gynnal ymddiriedaeth a hyder mewn safonau bwyd.

Mae ein statws fel adran anweinidogol o'r llywodraeth, sy'n gwasanaethu Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr, yn rhoi lefel uchel o annibyniaeth i ni, ac rydym yn gweithredu'n rhydd rhag cyfarwyddyd neu reolaeth wleidyddol. Y Gweinidog Iechyd perthnasol yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr sy'n ymdrin â materion deddfwriaeth a 'llawr y Siambr/Tŷ'. Mae gennym gyllideb gan Drysorlys EF a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yng Nghymru a Gogledd Iwerddon o oddeutu £140 miliwn ac rydym yn cyflogi tua 1,400 o weision sifil yn uniongyrchol. Mae'r ASB yn cydweithio'n agos â'r corff cyfatebol yn yr Alban, Safonau Bwyd yr Alban.

Mae'r Bwrdd yn pennu'r blaenoriaethau strategol i gyflawni dibenion statudol yr ASB, ac yn adolygu cynnydd yn erbyn canlyniadau y cytunwyd arnynt. Mae'r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau mawr ar iechyd y cyhoedd a materion rheoleiddiol ac yn sicrhau bod rhaglenni a chynlluniau yn cael eu cyflenwi.

Yn 2022, gwnaeth yr ASB gyhoeddi ei strategaeth ar gyfer gwella bwyd dros y pum mlynedd nesaf ac ailymrwymo i'w chenhadaeth, sef bwyd y gallwch ymddiried ynddo. Mae'r strategaeth pum mlynedd yn adlewyrchu'r cynnydd yng nghyfrifoldebau'r ASB nawr bod y DU y tu allan i'r UE ac mae hefyd yn ymrwymo'r ASB i weithio ochr yn ochr ag adrannau eraill o'r llywodraeth tuag at fwyd iachach a mwy cynaliadwy.

Nod y Bwrdd yw i'r ASB gael ei hystyried yn rheoleiddiwr rhagorol, atebol a modern. Mae gennym Fwrdd ymroddedig a chydlynol iawn sy'n cynnwys aelodau o amrywiaeth o gefndiroedd sy'n rhannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd i gefnogi'r nod hwn. Rydym yn cynnal cyfarfodydd Bwrdd yn gyhoeddus bedair gwaith y flwyddyn, gyda dwy sesiwn breifat i'r Bwrdd yn ogystal â sesiynau briffio rheolaidd ac ymweliadau â rhanddeiliaid. Rydym oll yn rhannu'r un nod cyffredin, sef cynnal a gwella safonau bwyd. Mae bwyd o bwys i bobl ledled y DU, ac yn y gwledydd hynny yr ydym yn allforio iddynt, ac, os byddwch yn ymuno â ni, bydd eich cyfraniad yn helpu i gynnal a gwella'r safonau bwyd yr ydym yn falch ohonynt yn y DU.

Yn y pecyn hwn, cewch weld gwybodaeth ychwanegol am yr ASB a'i gwaith, manylion y rôl, a sut i wneud cais. Edrychaf ymlaen at gael eich cais.

**Yr Athro Susan Jebb, Cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd**

# 1.2 Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Mae Gweinidogion Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn bwriadu penodi Dirprwy Gadeirydd i Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB).

## Disgrifiad o'r rôl

- Dirprwyo yn ôl yr angen ar ran y Cadeirydd gan ysgwyddo'i holl gyfrifoldebau.
- Gweithredu fel cyfryngwr rhwng aelodau'r Bwrdd a'r Cadeirydd, gan helpu i gyfleu consenswS a barn yn effeithiol, hyrwyddo diwylliant o fod yn agored a thrafod, ac annog cyfraniad effeithiol aelodau'r Bwrdd.
- Darparu cefnogaeth a meithrin cysylltiadau cynhyrchiol rhwng aelodau gweithredol ac anweithredol y Bwrdd.
- Sicrhau bod yr ASB yn cyflawni ei dyletswyddau yn unol â'r gofyniad i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.
- Gosod ac atgyfnerthu gwerthoedd craidd yr ASB trwy ddatblygu a monitro amcanion, cynlluniau a pholisïau strategol.
- Cynrychioli'r ASB a'i gwerthoedd mewn cyfathrebiadau â rhanddeiliaid allweddol.
- Monitro perfformiad y Weithrediaeth o ran cyflawni amcanion a thargedau y cytunwyd arnynt, gan gynnwys: darparu gwasanaethau; gwelliant parhaus; perfformiad ariannol; a rheoli risg.
- Cynorthwyo gyda'r gwaith o benodi'r Prif Weithredwr.
- Chwarae rhan effeithiol yng nghyfarfodydd, trafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd, a gweithio i sicrhau llwyddiant ar y cyd.
- Cymryd rhan fel aelod neu Gadeirydd un neu fwy o Bwyllgorau'r Bwrdd: Busnes, ac Archwilio a Sicrwydd Risg.
- Gweithredu er budd y cyhoedd bob amser, nid fel cynrychiolydd ar ran buddiannau unrhyw sector penodol, a heb ystyried unrhyw fuddiannau personol.

## Manyleb y person

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r ASB yn gwerthfawrogi ac yn hyrwyddo amrywiaeth. Rydym yn annog ceisiadau gan unigolion dawnus o bob cefndir ac ar draws y

Deyrnas Unedig gyfan. Mae byrddau cyrff cyhoeddus yn fwyaf effeithiol pan fyddant yn adlewyrchu amrywiaeth safbwyntiau'r gymdeithas y maent yn ei gwasanaethu.

Er mwyn cael eich ystyried ar gyfer y rôl hon, rhaid i chi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o feini prawf hanfodol y rôl.

Nid yw aelodau Bwrdd yn cynrychioli unrhyw ddiwydiant neu sector penodol ac nid yw'n hanfodol iddynt fod â gwybodaeth arbenigol neu wyddonol am unrhyw ran o'r gadwyn fwyd.

**Meini Prawf Hanfodol**

- Y gallu i gadeirio cyfarfodydd bwrdd sefydliad cenedlaethol o bwys, a chefnogi a chynnal bwrdd effeithiol sydd â gwerthfawrogiad cadarn o drefniadau llywodraethu da.
- Hanes cryf ar draws eich gyrfa o gyflawni'n sylweddol ar lefel uwch yn y sectorau preifat, cyhoeddus neu wirfoddol.
- Y gallu i weithredu'n effeithiol fel rhan o dîm ar fwrdd corff cyhoeddus cenedlaethol, gan ddarparu cefnogaeth, herio a rhoi sicrwydd.
- Y gallu i ddangos eich bod yn graff eich barn, ynghyd â'r gallu i ddadansoddi ystod eang o wybodaeth yn feirniadol a gwneud penderfyniadau strategol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol rhagorol, gyda'r gallu i ennill hyder cydweithwyr yn eich sefydliad a'i randdeiliaid.
- Profiad o weithio gyda, neu ar ran y cyhoedd a'r gallu i gynrychioli buddiannau defnyddwyr.

# Tâl a statws y penodiad

Rhoddir tâl i Ddirprwy Gadeirydd yr ASB ar y gyfradd safonol o £14,000 y flwyddyn.

Mae'r tâl ar gyfer y rôl hon yn cael ei drin fel incwm a bydd yn destun treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol. Bydd y ddau beth hyn yn cael eu didynnu wrth y ffynhonnell o dan TWE cyn i chi gael eich talu.

Gallwch hawlio ad-daliad am gostau teithio a chynhaliaeth rhesymol yr eir iddynt yn briodol ac yn angenrheidiol ar fusnes swyddogol, yn unol â'r polisi teithio a chynhaliaeth a chyfraddau'r ASB. Fodd bynnag, mae'r taliadau hyn yn drethadwy fel enillion a byddant yn destun treth ac yswiriant gwladol. Bydd y ddau beth hyn yn cael eu didynnu wrth y ffynhonnell o dan TWE cyn i chi gael eich talu. Gellir cael copi o'r polisi a'r cyfraddau gan yr ASB.

Penodiad fel deiliad swydd yw hwn ac felly nid yw'n ddarostyngedig i ddarpariaethau cyfraith cyflogaeth. Ni fyddwch yn gymwys i gael tâl dileu swydd ('redundancy') gan nad ydych yn gyflogai. Nid oes unrhyw drefniadau eraill wedi'u gwneud ar gyfer iawndal ar ddiwedd cyfnod eich penodiad oherwydd na fyddai gan ddeiliad swydd a benodir am gyfnod cyfyngedig unrhyw ddisgwyliad o wasanaethu y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw. Ni fyddwch yn dod yn aelod o'r

Gwasanaeth Sifil ac felly ni fyddwch yn cael unrhyw fuddion o dan unrhyw Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

## Ymrwymiad amser

35 diwrnod y flwyddyn.

## Lleoliad

Mae pencadlys yr ASB wedi'i leoli yn:

64 Victoria Street
Llundain
SW1E 6QP

Mae'r ASB yn cynnal tri chyfarfod Bwrdd a dau gyfarfod 'cwrdd i ffwrdd' mewn gwahanol leoliadau ledled Lloegr.

Cynhelir un cyfarfod Bwrdd y flwyddyn naill ai yng Nghymru neu Ogledd Iwerddon.

Mae cyfarfodydd sydd i ddod wedi'u trefnu ar gyfer:

15–16 Medi 2026
12–13 Hydref 2026
8–9 Rhagfyr 2026

Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd ar dudalen Cyfarfodydd Bwrdd yr ASB ar ein gwefan. Mae hyn yn cynnwys fideos o gyfarfodydd blaenorol y Bwrdd.

## Hyd y penodiad

Bydd gweinidogion yn pennu hyd y penodiad, a fydd hyd at 3 blynedd.

Mae'r posibilrwydd o ailbenodi am dymor pellach yn ôl disgresiwn y gweinidogion. Ni ellir gwarantu ailbenodiad; ystyrir pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun. Bydd y rhinweddau hyn yn cwmpasu nifer o ffactorau gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, amrywiaeth y Bwrdd presennol, y cydbwysedd o sgiliau a phrofiad sydd eu hangen arno yn y dyfodol, a pherfformiad deiliad swydd yn ystod ei dymor cyntaf. Dim ond trwy eithriad y bydd deiliad swydd yn gwasanaethu am fwy na dau dymor neu gyfanswm o ddeng mlynedd.

## Atebolrwydd

Caiff y Dirprwy Gadeirydd ei benodi gan Weinidogion Cymru a Gogledd Iwerddon, a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Bydd y Dirprwy Gadeirydd yn atebol i Weinidogion drwy'r Cadeirydd am gyflawni ei ddyletswyddau ac am ei berfformiad.

Mae Dirprwy Gadeirydd yr ASB hefyd yn atebol i'r canlynol:

- Y Bwrdd am gamau y mae'n eu cymryd ar ei ran, gan gynnwys pan fydd yn gweithredu fel Cadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd
- Y Cadeirydd am weithredoedd a ddirprwywyd ganddo neu ganddi

## Cyfle i drafod y rôl

I gael mwy o wybodaeth am rôl yr ASB a rôl y Dirprwy Gadeirydd, cysylltwch ag:

Ann Stirling

Ffôn: 07970 401448

E-bost: board.sec@food.gov.uk

# 1.3 Yr Asiantaeth Safonau Bwyd: ei rôl a'i chyfrifoldebau

Mae'r ASB yn adran anweinidogol, annibynnol. Cafodd ei sefydlu yn 2000 yn dilyn nifer o achosion proffil uchel o afiechydon a gludir gan fwyd fel BSE (clwy'r gwartheg cynddeiriog).

Mae'r amcanion, y pwerau a'r dyletswyddau wedi'u nodi'n bennaf yn Neddf Safonau Bwyd 1999. Mae'r ASB yn gweithio ledled Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Ei phrif amcanion yn ôl y gyfraith yw diogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau sy'n deillio o fwyta bwyd, ac i ddiogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.

Nod yr ASB yw diogelu'r cyhoedd trwy sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, a thrwy chwarae ei rhan i helpu i wneud bwyd yn iachach ac yn fwy cynaliadwy i bawb. Mae hi'n gweithio ar draws y system fwyd i gynnal safonau uchel a'i gwneud hi'n haws i fusnesau wneud y peth iawn. Mae ei gwaith yn helpu i sicrhau y gall y cyhoedd, a phartneriaid masnachu rhyngwladol, fod â ffydd ym mwyd y DU.

Mae ei rôl yn cynnwys rhoi cyngor polisi i weinidogion, monitro datblygiadau mewn gwyddoniaeth a thechnoleg a chomisiynu ymchwil, gan sicrhau bod ei phenderfyniadau a'i chyngor bob amser yn seiliedig ar yr wyddoniaeth orau a mwyaf diweddar. Mae'r ASB hefyd yn darparu gwybodaeth a chyngor i lunwyr polisi eraill ac i'r cyhoedd mewn perthynas â materion o fewn ei hamcanion statudol. Mae ganddi swyddogaethau tebyg mewn perthynas â bwyd anifeiliaid hefyd.

Mae ei phwerau statudol yn cynnwys y pŵer i gyhoeddi canllawiau ar reoli clefydau a gludir gan fwyd, a'r pŵer i gasglu a chyhoeddi gwybodaeth am y system fwyd i gefnogi ei hamcanion, ac i gyhoeddi ei chyngor ei hun. Mae ganddi hefyd bwerau penodol fel rheoleiddiwr i orfodi rheolaethau diogelwch bwyd yn uniongyrchol ar rai busnesau ac i oruchwylio gwaith awdurdodau lleol, sydd â chyfrifoldebau gwahanol ledled Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr, o'u gorfodi. Ers i'r DU ymadael â'r UE, mae'r ASB hefyd yn asesu pob cais i awdurdodi bwydydd, bwyd anifeiliaid neu ddeunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd

newydd i'w gwerthu yng Nghymru a Lloegr, ac yn cynghori'r gweinidogion iechyd ar yr awdurdodiadau.

Caiff yr ASB ei llywodraethu gan Fwrdd annibynnol, yn hytrach na chan weinidogion. Caiff y Cadeirydd ac aelodau eraill eu penodi gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth Gogledd Iwerddon a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Maent yn gweithio'n agos gyda Safonau Bwyd yr Alban (FSS), sef y corff cyhoeddus cyfatebol yn yr Alban.

Cytunir ar waith yr ASB yng nghyfarfodydd agored y Bwrdd, ac mae'r gwaith hwn bob amser wedi'i danategu gan y wyddoniaeth a'r dystiolaeth ddiweddaraf.

Mae Llywodraeth Cymru, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Ganolog y DU yn cyfrannu at gyllideb yr ASB, sydd wedi bod oddeutu £140 miliwn yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae rhagor o wybodaeth am waith yr ASB ar gael ar ei gwefan yn:

Hafan | Yr Asiantaeth Safonau Bwyd

**Dolenni defnyddiol**

Llyfryn yr ASB

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cyfunol 2024–25

Ein Bwyd 2024 | Yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Fframwaith Gweithredu Bwrdd yr ASB

Adroddiad am berfformiad y Pwyllgor Busnes ar gyfer Chwarter 2, 2025–26 | Yr Asiantaeth Safonau Bwyd

# Adran 2: Recriwtio

## 2.1 Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb yn y penodiad i fod yn Ddirprwy Gadeirydd gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

Tîm Penodiadau Cyhoeddus yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n rheoli'r ymgyrch recriwtio hwn.

Er mwyn gwneud cais, bydd angen i chi greu cyfrif neu fewngofnodi ar y wefan 'Apply for a public appointment'. Llwyfan recriwtio ganolog, ar-lein yw hon a reolir gan Swyddfa'r Cabinet, y mae ymgeiswyr yn ei defnyddio i wneud cais am benodiadau cyhoeddus gydag unrhyw adran o'r llywodraeth neu gorff a noddir ganddynt.

Unwaith y byddwch wedi mewngofnodi i'ch cyfrif, cliciwch ar y botwm perthnasol i wneud cais am y rôl a dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrin.

I wneud cais, mae'n ofynnol i bob ymgeisydd ddarparu:

- curriculum vitæ (CV) – gofynnwn i chi sicrhau nad yw'r CV yn hirach na dwy dudalen
- datganiad ategol (dim mwy na dwy dudalen) sy'n nodi sut rydych yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y penodiad fel y nodir ym manyleb y person ar gyfer y rôl
- gwybodaeth at ddibenion monitro cydraddoldeb
- gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw fuddiannau allanol neu faterion a allai effeithio ar eich enw da

Mae canllawiau ar yr hyn i'w gynnwys yn eich CV/datganiad ategol, ynghyd ag awgrymiadau ar gyfer gwneud cais, i'w gweld yn yr adrannau cyfatebol isod ac ar y wefan penodiadau cyhoeddus: Penodiadau cyhoeddus – GOV.UK.

Bydd gofyn i chi wirio a chadarnhau eich manylion personol i sicrhau bod eich cais yn gywir.

Byddwch hefyd yn cael y cyfle i ofyn am addasiad rhesymol neu gyflwyno cais o dan y cynllun hyderus o ran anabledd cyn i chi gyflwyno eich cais.

Bydd hefyd yn ofynnol i chi wneud unrhyw ddatganiadau sy'n ymwneud â safonau mewn bywyd cyhoeddus a sicrhau hyder y cyhoedd yn eich datganiad ategol. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn yr adran berthnasol isod.

Os na allwch greu cyfrif a gwneud cais ar-lein, neu os cewch unrhyw broblemau wrth gyflwyno eich cais ar-lein, cysylltwch â Jessie Rourke ar 0113 254 5321 neu Zubeda Seedat ar 0207 210 5352.

Rhaid i geisiadau ddod i law erbyn **canol dydd, ddydd Llun 27 Gorffennaf 2026**.

Mae'r Panel Asesu Ymgynghorol yn cadw'r hawl i ystyried dim ond ceisiadau sy'n cynnwys yr holl elfennau y gofynnwyd i chi eu darparu a restrir uchod, ac sy'n dod i law cyn y dyddiad cau cyhoeddedig.

Wrth gwblhau cais, nodwch yn gyntaf yr wybodaeth ganlynol a nodir isod, mewn perthynas ag:

- anghymhwyso rhag penodi
- gwrthdaro buddiannau
- gweithgarwch gwleidyddol a'r cyfryngau cymdeithasol
- safonau mewn bywyd cyhoeddus a sicrhau hyder y cyhoedd

## Anghymhwyso rhag penodi

Mae Swyddfa'r Cabinet yn nodi'r canlynol ynghylch pob penodiad cyhoeddus:

Er mwyn dal y rôl fel Dirprwy Gadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd, mae angen i chi fod â'r hawl i weithio yn y DU.

Mae nifer bach o rolau arbenigol nad ydynt yn agored i ddinasyddion nad ydynt yn Brydeinig. Bydd unrhyw ofynion o ran cenedligrwydd yn cael eu nodi ym manylion y swydd.

Mae'r llywodraeth yn disgwyl i bob deiliad swydd gyhoeddus weithio i'r safonau personol a phroffesiynol uchaf. Ni allwch gael eich ystyried ar gyfer penodiad cyhoeddus, sy'n cynnwys y rôl hon, os yw'r canlynol yn wir:

- rydych wedi'ch anghymhwyso rhag gweithredu fel cyfarwyddwr cwmni (o dan Ddeddf Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986)
- mae gennych euogfarn heb ei disbyddu ar eich cofnod troseddol
- mae eich ystâd wedi'i hatafaelu yn yr Alban neu rydych yn ymuno â rhaglen trefniant dyled o dan Ran 1 o Ddeddf Trefnu ac Atafaelu Dyledion (yr Alban) 2002 (asp 17) fel y dyledwr neu rydych, o dan gyfraith yr Alban, wedi rhoi gweithred ymddiried ar gyfer credydwyr

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd yn mynnu bod yn rhaid i bawb a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i benodiadau cyhoeddus fod yn unigolion addas a phriodol, yn gymharol â'r gofynion a osodir ar aelodau bwrdd yn y GIG. O ganlyniad, yn ogystal â'r uchod, rhaid i chi:

- fod o gymeriad da
- meddu ar y cymwysterau, y cymhwysedd, y sgiliau a'r profiad sy'n angenrheidiol i chi gyflawni eich dyletswyddau
- peidio â bod wedi eich dileu na'ch tynnu oddi ar unrhyw gofrestr berthnasol o weithwyr proffesiynol a gynhelir gan reoleiddiwr gweithwyr gofal iechyd neu waith cymdeithasol. Os oes angen i chi fod wedi cofrestru gyda chorff proffesiynol perthnasol i gyflawni eich rôl, rhaid i chi feddu ar y fath gofrestriad a bod â'r hawl i ddefnyddio unrhyw deitlau proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r cofrestriad hwn. Pan na fyddwch chi'n bodloni'r gofyniad i feddu ar y cofrestriad mwyach, ac os ydych yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol, yn weithiwr cymdeithasol neu'n weithiwr proffesiynol arall sydd wedi'i

gofrestru gyda rheoleiddiwr gofal iechyd neu ofal cymdeithasol, rhaid i chi roi gwybod i'r rheoleiddiwr dan sylw
- gan ystyried eich iechyd, bod yn abl i gyflawni'r tasgau sy'n hanfodol i'ch rôl, ar ôl gwneud addasiadau rhesymol
- peidio â bod wedi eich gwahardd rhag dal swydd (er enghraifft, o ganlyniad i orchymyn anghymhwyso cyfarwyddwyr)
- o fewn y pum mlynedd diwethaf:
    - peidio â bod wedi cael eich dyfarnu'n euog o drosedd a'ch dedfrydu i garchar am dri mis neu fwy
    - peidio â bod wedi bod yn fethdalwr heb ei ryddhau nac wedi bod yn destun cyfyngiadau methdaliad, neu beidio â bod wedi gwneud trefniadau/cyfamodau â chredydwyr a heb eu rhyddhau
    - peidio â bod ar unrhyw restr 'waharddedig'
    - peidio â bod wedi bod yn gyfrifol am, wedi cyfrannu at neu wedi hwyluso unrhyw gamymddwyn neu gamreoli difrifol (boed yn anghyfreithlon ai peidio) wrth gynnal gweithgaredd rheoleiddiedig neu ddarparu gwasanaeth yn rhywle arall a fyddai, pe bai'n cael ei ddarparu yn Lloegr, yn weithgaredd rheoleiddiedig

Yn ogystal, mae deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r ASB yn nodi sut y caiff unigolion eu hanghymhwyso rhag cael eu penodi'n Ddirprwy Gadeirydd, os ydynt yn:

- aelod o Dŷ'r Cyffredin neu Gynulliad Gogledd Iwerddon

Crynodeb o'r ddeddfwriaeth yn unig yw'r uchod, a dylech ystyried yr adrannau perthnasol o'r ddeddfwriaeth yn llawn, sydd wedi'u hatodi er hwylustod i chi yn **Atodiad A** i'r ddogfen hon.

Wrth anfon eich cais ar-lein, gofynnir i chi gadarnhau bod yr wybodaeth a ddarparwyd gennych yn wir ac yn gywir a'ch bod yn gymwys i wneud cais am benodiad cyhoeddus. Fel rhan o hyn, byddwch hefyd yn cadarnhau eich bod wedi darllen unrhyw feini prawf anghymhwyso ar gyfer y rôl, a'ch bod yn fodlon rhoi'r gorau i unrhyw rôl/rolau eraill er mwyn cymryd y penodiad. Os ydych wedi eich anghymhwyso rhag cael eich penodi ar hyn o bryd, rhowch fanylion pellach yn eich llythyr ategol.

Am gyngor pellach, cysylltwch â Jessie Rourke yn jessie.rourke@dhsc.gov.uk.

## Gwrthdaro buddiannau

Cyn i chi wneud cais, dylech ystyried yn ofalus a oes gennych chi neu barti sy'n gysylltiedig â chi unrhyw fuddiannau a allai arwain at wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ganfyddedig pe baech chi'n cael eich penodi. Os oes unrhyw amheuaeth, cynghorir eich bod chi'n gwneud datgeliad llawn.

Pan fyddwch chi'n gwneud cais, gofynnir i chi lenwi, fel rhan o'r adran 'Buddiannau allanol a materion yn ymwneud ag enw da', wybodaeth am y canlynol:

- buddiannau ariannol
- cyflogaeth, penodiadau a rolau allanol eraill

- buddiannau personol
- unrhyw fuddiannau neu weithgareddau perthnasol eraill
- gweithgarwch a buddiannau gwleidyddol

Dylech ddatgan unrhyw beth perthnasol a allai, yn eich barn chi, fwrw amheuaeth ar eich gallu i gyflawni'n briodol gyfrifoldebau'r rôl yr ydych yn gwneud cais amdani, neu y gallai aelod rhesymol o'r cyhoedd ei ystyried yn rhywbeth a allai effeithio ar eich gallu i wneud hynny.

Gall buddiannau gynnwys (heb gyfyngiad) unrhyw fuddiannau personol neu fusnes allanol, unrhyw fuddiannau ariannol uniongyrchol ac anuniongyrchol (fel cyfranddaliadau neu opsiynau cyfranddaliadau mewn cwmnïau unigol), neu unrhyw gyflogaethau, penodiadau eraill neu swyddi eraill o awdurdod, sydd gennych chi neu unrhyw barti sy'n gysylltiedig â chi ac a allai ddylanwadu ar eich barn wrth gyflawni eich penodiad cyhoeddus neu y gallai aelod rhesymol o'r cyhoedd eu hystyried fel rhai sydd â'r gallu i wneud hynny. Gallai 'parti sy'n gysylltiedig â chi' gynnwys er enghraifft (ond heb gyfyngiad) priod/partner, partner busnes, neu berson sy'n byw yn yr un cartref â chi. Gallai gweithgarwch a buddiannau gwleidyddol pellach fod yn fwy na phum mlynedd yn ôl a gallant gynnwys perthynas flaenorol â'r gweinidog sy'n penodi.

Rhoddir cymorth pellach ac enghreifftiau i chi o'r mathau o bethau y gallai fod angen i chi eu datgelu ar y tudalennau perthnasol pan fyddwch yn creu eich cyfrif a'ch cais ar y system ceisiadau penodiadau cyhoeddus (gwefan GOV.UK).

Gellir datrys sawl achos o wrthdaro buddiannau yn foddhaol ac nid yw datgan gwrthdaro posib yn eich atal rhag cael eich cyfweld.

Os cewch eich rhoi ar y rhestr fer, bydd y Panel Asesu Ymgynghorol yn trafod unrhyw wrthdaro posib â chi yn ystod eich cyfweliad, gan gynnwys unrhyw gynigion a allai fod gennych i'w lliniaru, a gallant gofnodi hynny yn eu cyngor i weinidogion. Os bydd gweinidogion yn dymuno eich penodi, efallai y cewch gynnig y penodiad ar yr amod eich bod yn rhoi'r gorau i unrhyw achos o wrthdaro buddiannau na ellir ei reoli.

Os cewch gynnig y rôl, bydd gofyn i chi wneud Datganiad o Fuddiannau. Bydd gofyn i hwn gynnwys y mesurau lliniaru a gymeradwywyd gan yr Adran ar gyfer rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau posib. Gall methu â datgan gwrthdaro buddiannau posib arwain at dynnu cynnig penodiad yn ôl.

Bydd gofyn i chi hefyd gadw'r Datganiad yn gyfredol drwy gydol cyfnod eich penodiad. Bydd y gofyniad i ddatgan buddiannau hefyd yn cael ei gynnwys yn Nhelerau ac Amodau eich penodiad. Gall methu â datgelu buddiant, yn amodol ar y buddiant a'r amgylchiadau, ddod yn sail yn ystod cyfnod eich penodiad dros atal neu derfynu eich penodiad.

Yn amodol ar y buddiant penodol, efallai y bydd gofyn i chi hefyd ddatgan y buddiant i'r ASB i'w gynnwys ar ei chofrestr gyhoeddedig o fuddiannau ei haelodau.

## Gweithgarwch gwleidyddol a'r cyfryngau cymdeithasol

Yn yr un adran o'ch cais ar-lein, gofynnir i chi hefyd ddatgan a ydych wedi ymgymryd ag unrhyw weithgaredd gwleidyddol dros blaid wleidyddol o fewn y pum mlynedd diwethaf ac am fanylion unrhyw gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y gall y cyhoedd eu gweld.

### Gweithgarwch gwleidyddol

Defnyddir gwybodaeth am weithgarwch gwleidyddol yn bennaf at ddibenion monitro. Fodd bynnag, os cewch eich rhoi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, bydd yr wybodaeth hon yn cael ei rhannu gyda'r Panel Asesu Ymgynghorol. Mae hyn oherwydd ein bod ni'n deall y gallech fod wedi ennill sgiliau perthnasol o'r fath weithgareddau, gan gynnwys profiad o waith pwyllgor, gwneud penderfyniad ar y cyd, datrys gwrthdaro a siarad cyhoeddus. Os ydych chi wedi cael profiad o'r fath a'ch bod yn ei ystyried yn berthnasol i'ch cais am y swydd hon, dylech hefyd achub ar y cyfle i'w gynnwys ar wahân yn eich datganiad ategol. Fodd bynnag, os yw'n bosib, ni ddylech nodi'r blaid wleidyddol berthnasol yn eich datganiad.

Os cewch eich penodi i'r rôl hon, nodwch y bydd unrhyw weithgarwch gwleidyddol a ddatganwch ac sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer bod yn weithgar yn wleidyddol, fel y nodir yn y canllawiau wrth wneud cais ar-lein, yn cael ei gyhoeddi yn unol â'r Cod Llywodraethu ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus. Nid yw gweithgarwch gwleidyddol yn rhywbeth a allai eich rhwystro rhag cael eich penodi, ond rhaid ei ddatgan.

### Y cyfryngau cymdeithasol

Gallwch ddarparu hyd at bum cyfrif cyfryngau cymdeithasol cyhoeddus, a gofynnir i chi am URL llawn pob un. Os byddwch yn gwneud cais am benodiad cyhoeddus ac yn cael eich rhoi ar restr fer ar gyfer cyfweliad, bydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnal gwiriadau priodol. Fel rhan o hynny, rydym yn cadw'r hawl i ystyried unrhyw beth yn y parth cyhoeddus a allai fod yn berthnasol i'ch gallu i fodloni gofynion y rôl yr ydych wedi gwneud cais amdani ac i ddal swydd gyhoeddus. Gallai hyn gynnwys chwiliadau o ddatganiadau cyhoeddus blaenorol a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol, blogiau neu unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael yn gyhoeddus. Gofynnwn am wybodaeth am eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol i sicrhau bod y gwiriadau hyn yn cael eu cynnal yn gywir.

## Safonau mewn bywyd cyhoeddus a sicrhau hyder y cyhoedd

Os oes unrhyw faterion yn eich hanes personol neu broffesiynol a allai, pe baech yn cael eich penodi, gael eu camddehongli, achosi embaras i weinidogion neu'r ASB, neu beryglu hyder y cyhoedd yn y penodiad, **mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i'r Panel Asesu Ymgynghorol amdanynt a'ch bod yn darparu manylion y mater(ion) yn eich Datganiad Ategol**.

Dylai hyn gynnwys rhoi gwybod yn eich Datganiad Ategol os yw unrhyw un o'r canlynol yn wir:

- rydych chi'n fethdalwr, neu wedi bod yn fethdalwr, neu rydych chi wedi gwneud trefniant gyda chredydwr ar unrhyw adeg, gan gynnwys y dyddiadau perthnasol
- rydych yn destun ymchwiliad heddlu cyfredol
- mae yna unrhyw faterion blaenorol neu faterion yn yr arfaeth o ran eich ymddygiad personol ac mae un o'r canlynol yn berthnasol:
    - mae cwyn / mater o ran eich ymddygiad personol naill ai wedi'i gadarnhau neu wedi'i gadarnhau'n rhannol

    - mae ymchwiliad sy'n ymwneud o leiaf yn rhannol â'ch ymddygiad personol i'w gynnal ond nid yw wedi dechrau eto, neu mae ymchwiliad tebyg o'r fath ar y gweill ond nid yw wedi'i gwblhau eto
    - mae cwyn / mater o ran eich ymddygiad personol yn mynd rhagddo, ond ar adeg eich cais nid oes cadarnhad wedi'i roi eto a fydd ymchwiliad pellach yn cael ei gynnal na sut
- mae unrhyw faterion a allai effeithio ar ein henw da yn deillio o'ch gweithredoedd yn y gorffennol neu ddatganiadau cyhoeddus yr ydych wedi'u gwneud (gan gynnwys trwy'r cyfryngau cymdeithasol a blogiau)
- mae unrhyw faterion eraill a allai olygu na fyddwch yn gallu bodloni gofynion y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o Fyrddau Cyrff Cyhoeddus. Gallwch chi weld y ddogfen hon yn: www.gov.uk/government/publications/board-members-of-public-bodies-code-of-conduct

Ochr yn ochr â'ch datganiad eich hun, byddwn hefyd yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy, fel y nodwyd uchod, ar wybodaeth sydd yn y parth cyhoeddus. Bydd eich datganiadau a gwybodaeth o'n gwiriadau yn cael eu rhannu gyda'r Panel Asesu Ymgynghorol, a all archwilio unrhyw faterion gyda chi fel rhan o asesu eich cais.

Gallai methu â datgelu'r wybodaeth berthnasol y gofynnwyd amdani arwain at dynnu cynnig penodiad yn ôl neu at derfynu'r penodiad, gan y bydd disgwyl i'r sawl a benodir i'r rôl hon ddangos y safonau uchaf o ymddygiad corfforaethol a phersonol, a hynny'n unol â'r safonau a nodir yn y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o Fyrddau Cyrff Cyhoeddus, sy'n cynnwys Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus. Trwy gytuno ar delerau ac amodau'r penodiad, bydd disgwyl i chi gytuno i fodloni'r safonau a nodir yn y Cod hwn.

Mae fframwaith gweithredu'r ASB ei hun i'w weld yn https://www.food.gov.uk/about-us/board-operating-framework.

# CV

Gofynnwn i chi geisio sicrhau nad yw'ch CV yn hirach na dwy dudalen. Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys:

- eich enw llawn, eich teitl, eich cyfeiriad cartref, eich rhifau ffôn cyswllt personol (llinell dir a ffôn symudol) a'ch cyfeiriad e-bost personol
- manylion eich addysg a chymwysterau, hanes cyflogaeth, swyddi cyfarwyddwyr, aelodaeth o gyrff proffesiynol ac unrhyw gyhoeddiadau neu ddyfarniadau perthnasol
- manylion cyswllt o leiaf dau ganolwr. Dylai un canolwr fod yn unigolyn yr ydych/yr oeddech yn atebol iddo yn eich penodiad neu'ch cyflogaeth bresennol/ddiweddaraf. Nodwch berthynas pob canolwr â chi
- manylion cryno eich swydd bresennol neu ddiweddaraf a'r dyddiadau y buoch chi yn y swydd hon, ac unrhyw benodiadau gweinidogol yn y gorffennol neu'r presennol

# Datganiad ategol

Defnyddir eich datganiad ategol i ddangos sut rydych chi'n bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Efallai yr hoffech chi ychwanegu'r meini prawf hanfodol a/neu ddymunol a nodir yn y disgrifiad o'r rôl fel is-benawdau yn eich datganiad a darparu

tystiolaeth o dan y rhain. Bydd hyn yn helpu'r Panel Asesu Ymgynghorol i weld sut mae eich sgiliau a'ch arbenigedd yn berthnasol i'r rôl.

Nodwch hefyd fanylion unrhyw faterion posib sy'n ymwneud ag enw da (gweler y canllawiau uchod ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus).

Nodwch eich enw llawn, y rôl rydych yn gwneud cais amdani a'r cyfeirnod cyfatebol ar gyfer y swydd yn glir ar frig eich datganiad.

Ysgrifennwch bob acronym yn llawn yn gyntaf, **cyfyngwch eich datganiad i ddwy dudalen**, a theipiwch neu ysgrifennwch yn glir mewn inc du.

**Mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r adran os bydd eich amgylchiadau, yn ystod y broses ymgeisio ac asesu, yn newid o ran unrhyw wybodaeth sydd wedi'i darparu neu a ddylai fod wedi'i darparu gennych chi yn eich cais.**

## Gwybodaeth at ddibenion monitro cydraddoldeb

Gofynnir i chi ateb cwestiynau yn ymwneud â materion o ran cydraddoldeb wrth lenwi eich cais ar-lein. Os ydych chi wedi creu cyfrif o'r blaen, bydd yr ymatebion o'r cais blaenorol hwnnw'n cael eu cadw. Byddwch chi'n cael cyfle i adolygu ac addasu eich ymatebion cyn i chi gyflwyno cais.

Rydym yn annog ceisiadau gan unigolion dawnus o bob cefndir ac ar draws y Deyrnas Unedig gyfan. Mae byrddau cyrff cyhoeddus yn fwyaf effeithiol pan fyddant yn adlewyrchu amrywiaeth safbwyntiau'r cyhoedd y maent yn ei wasanaethu.

Rydym yn casglu gwybodaeth at ddibenion monitro cydraddoldeb, gan gynnwys gwybodaeth am nodweddion a chefndir addysgol a phroffesiynol ymgeiswyr fel y gallwn ni wneud yn siŵr ein bod ni'n denu ystod eang o bobl i'r rolau hyn a bod ein prosesau recriwtio'n deg i bawb. Heb yr wybodaeth hon, mae'n ei gwneud hi'n anodd gweld a yw ein gwaith allgymorth yn gweithio, a yw'r broses ymgeisio'n cael effaith annheg ar rai grwpiau ac a yw newidiadau'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Defnyddir y data a ddarperir gennych chi i gynhyrchu gwybodaeth reoli ddienw am amrywiaeth yr ymgeiswyr. Gallwch ddewis "mae'n well gen i beidio â dweud" ar gyfer unrhyw gwestiwn nad ydych yn dymuno ei ateb. **Ni fydd y Panel Asesu Ymgynghorol yn gallu gweld yr wybodaeth a ddarperir gennych.**

## Addasiadau rhesymol i'r broses ymgeisio

Rydym wedi ymrwymo i wneud addasiadau rhesymol i sicrhau nad yw ymgeiswyr ag anableddau, cyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol, neu anghenion eraill o dan anfantais sylweddol wrth wneud cais am benodiadau cyhoeddus. Gall hyn gynnwys newid y broses recriwtio i alluogi pobl sy'n dymuno gwneud cais i wneud hynny.

Dyma rai enghreifftiau o addasiadau:

- sicrhau bod ffurflenni cais ar gael mewn fformatau gwahanol neu hygyrch
- gwneud addasiadau i leoliadau cyfweliadau

- caniatáu i ymgeiswyr gyflwyno eu sgiliau a'u profiad mewn ffordd wahanol
- rhoi gwybodaeth fanwl ychwanegol am y broses asesu er mwyn rhoi amser i ymgeiswyr baratoi
- caniatáu i weithwyr cymorth fynd i gyfweliadau, er enghraifft dehonglwyr iaith arwyddion
- gwneud darpariaeth i anifeiliaid cymorth fynd i gyfweliadau

Pan fyddwch chi'n llenwi eich cais ar-lein, byddwch chi'n cael y cyfle i dicio blwch i ofyn am addasiad(au) rhesymol i'r broses ymgeisio yn y cam "gwirio eich atebion cyn anfon eich cais".

## Cynllun Hyderus o ran Anabledd

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gwerthfawrogi amrywiaeth, ac mae wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i bawb ac i benodi pobl ag anabledd. Rydym yn aelod o'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd, sy'n helpu i recriwtio a chadw pobl ag anabledd.
Fel rhan o weithredu'r Cynllun, rydym yn gwarantu cyfweliad i unrhyw un ag anabledd y mae ei gais yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol ym manyleb y person ar gyfer y rôl ac sydd wedi gofyn i'w gais gael ei ystyried o dan y Cynllun. Ni fydd nodi eich bod chi'n dymuno i'ch cais gael ei ystyried o dan y Cynllun yn effeithio'n negyddol ar eich cais mewn unrhyw ffordd.

**Beth rydym yn ei olygu wrth anabledd?**

I fod yn gymwys ar gyfer y cynllun Hyderus o ran Anabledd, rhaid i chi fod ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor, a allai fod yn gorfforol, yn synhwyraidd neu'n feddyliol, a rhaid iddi fod yn debygol y bydd yn para am o leiaf 12 mis. Nid oes rhaid i chi fod wedi'ch cofrestru fel person ag anabledd i wneud cais o dan y Cynllun hwn.

Os dymunwch wneud cais o dan y Cynllun, ticiwch y blwch perthnasol ar y cam "gwirio eich atebion cyn anfon eich cais" ar y system ar-lein.

# 2.2 Y broses asesu

Byddwn ni'n delio â'ch cais cyn gynted â phosib ac yn rhoi gwybod i chi beth yw'r amserlen debygol ar bob cam.

## Amserlen arfaethedig

- Dyddiad cau: Canol dydd, ddydd Llun 27 Gorffennaf 2026
- Llunio rhestr fer: Dydd Mercher, 12 Awst 2026
- Cyfweliadau: Dydd Iau, 24 Medi 2026 (y.b) & dydd Mawrth, 29 Medi 2026

## Panel Asesu Ymgynghorol

Caiff Paneli Asesu Ymgynghorol eu dewis gan weinidogion i'w helpu i wneud penderfyniadau. Maent yn cynnwys swyddog adrannol ac aelod annibynnol. Ar gyfer cystadlaethau sy'n recriwtio aelodau anweithredol o fwrdd (ar wahân i'r Cadeirydd), bydd y

Panel Asesu Ymgynghorol fel arfer yn cynnwys cynrychiolydd o'r corff cyhoeddus dan sylw, fel arfer y Cadeirydd.

Mae Paneli Asesu Ymgynghorol yn cyflawni nifer o swyddogaethau, gan gynnwys cynnal sifft a chyfweliadau ac asesu'n wrthrychol pwy sy'n bodloni'r meini prawf penodi cyhoeddedig ar gyfer y rôl. Mater i'r gweinidog wedyn yw penderfynu pwy i'w benodi i'r rôl.

Bydd y Panel Asesu Ymgynghorol yn cynnwys:

- Natasha Burgon, Cyfarwyddwr Gwella Iechyd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (cadeirydd y panel)
- Susan Jebb, Cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (aelod o'r panel)
- Gurch Randhawa, Cyfarwyddwr yn y Sefydliad Ymchwil Iechyd fel aelod annibynnol o'r panel

## Asesiad

Pan fydd yr hysbyseb wedi cau, byddwn ni'n comisiynu rhag-asesiad o geisiadau'r ymgeiswyr a fydd wedyn yn cael ei roi i'r Panel Asesu Ymgynghorol i'w ystyried ac i lywio'r broses o lunio rhestr fer. Trwy wneud cais, rydych chi'n cytuno i'ch cais gael ei rannu â pharti arall at ddiben cynnal rhag-asesiad. Os byddant yn dymuno, gall gweinidogion weld y rhestr lawn o ymgeiswyr a rhoi eu barn i'r Panel Asesu Ymgynghorol cyn llunio rhestr fer.

Yn y cyfarfod llunio rhestr fer, bydd y Panel Asesu Ymgynghorol yn asesu ceisiadau yn erbyn y meini prawf hanfodol. Cyfrifoldeb aelodau'r Panel Asesu Ymgynghorol yw penderfynu pwy, yn eu barn nhw, sy'n bodloni orau'r meini prawf ar gyfer y rôl, a phwy y dylid ei wahodd i gyfweliad. Os ydych chi wedi gwneud cais o dan y Cynllun Hyderus o ran Anabledd a'ch bod yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol, cewch eich gwahodd i gyfweliad.

Os byddwch chi'n gwneud cais o dan y cynllun Hyderus o ran Anabledd ac nad ydych ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, gallwn ddarparu crynodeb o'r asesiad a wnaed ar eich cais ysgrifenedig, os dewiswch ofyn am adborth. Fodd bynnag, oherwydd nifer y ceisiadau a geir, yn anffodus byddwn ni ond yn gallu rhoi adborth i ymgeiswyr eraill sydd wedi bod yn aflwyddiannus ar y cam cyfweld.

Os byddant yn dymuno, gall gweinidogion weld y rhestr fer o ymgeiswyr a rhoi eu barn i'r Panel Asesu Ymgynghorol cyn y cyfweliadau.

Byddwch chi'n cael gwybod (drwy e-bost) a ydych wedi cyrraedd y rhestr fer. Bydd y rheiny sydd wedi cael lle ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Cynhelir cyfweliadau naill ai wyneb yn wyneb, fel arfer yng nghanol Llundain, neu drwy fideo/telegynadledda. Byddwn yn cadarnhau'r trefniadau gydag ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer maes o law.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad a'ch bod yn methu dod ar y dyddiad penodol, dim ond yn ôl disgresiwn y Panel Asesu Ymgynghorol y gellir cynnig dyddiad arall.

Bydd y Panel Asesu Ymgynghorol yn cwrdd eto i gyfweld ag ymgeiswyr a phenderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol, ac felly'n ymgeisydd y gellir ei benodi i'r rôl. Efallai y byddant yn rhannu'r cwestiwn agoriadol gyda chi ymlaen llaw er mwyn caniatáu i chi baratoi eich ateb. Bydd y Panel Asesu Ymgynghorol yn mynd yn ei flaen i'ch holi am eich sgiliau a'ch

profiad, gan gynnwys gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych chi'n bodloni'r meini prawf a nodir ar gyfer y swydd. Bydd y Panel hefyd yn archwilio gyda chi unrhyw wrthdaro buddiannau posib neu unrhyw faterion eraill sy'n codi o'ch hanes personol a phroffesiynol a allai effeithio ar benderfyniad penodi (gweler adran 2.1 i gael manylion pellach).

Rhoddir manylion asesiad y Panel Asesu Ymgynghorol o'r ymgeiswyr a gyfwelwyd i weinidogion, gan gynnwys a ydynt wedi barnu bod ymgeisydd yn addas i'w benodi i'r rôl. Mater i'r gweinidogion wedyn yw penderfynu pwy ddylai gael ei benodi.

Gall gweinidogion ddewis cwrdd ag ymgeiswyr cyn gwneud penderfyniad. Dylai ymgeiswyr, felly, nodi y gallai bod oedi byr rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad terfynol ar y penodiad. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt y broses.

Unwaith y bydd y penderfyniad ar y penodiad wedi'i wneud, bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael gwybod am ganlyniad eu cais, gan gynnwys at bwy y gallant droi i gael adborth, os byddant yn dymuno gwneud hynny. Rydym yn gwerthfawrogi bod gwneud cais am swydd a pharatoi ar gyfer cyfweliad yn gofyn am gryn dipyn o amser ac ymdrech, a bod cael adborth yn rhan werthfawr o'r broses.
O dan rai amgylchiadau, gall gweinidogion ddewis peidio â phenodi neb ac ailgynnal y gystadleuaeth.

# Cynnig penodiad

Os byddwch chi'n llwyddiannus, bydd swyddogion yn cysylltu â chi i roi gwybod i chi am y cynnig ac i ofyn i chi gadarnhau a fyddech chi'n fodlon ei dderbyn. Os byddwch yn ei dderbyn, y camau nesaf fydd gofyn i chi lenwi ffurflen Datgan Buddiannau, y bydd yn ofynnol i chi ac uwch-swyddog ei llofnodi. Bydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd yn cynnal gwiriadau cyn penodi.

Cynhelir y gwiriadau hyn ar ymgeiswyr sydd i'w penodi, cyn iddynt gael eu penodi'n ffurfiol. I ddechrau, cynigir y rôl i chi yn amodol ar gwblhau'r gwiriadau hyn yn foddhaol.

Bydd rhai o'r gwiriadau'n cael eu cynnal gan Dîm Penodiadau Cyhoeddus yr adran a bydd rhai'n cael eu comisiynu ganddynt gan Wasanaeth Recriwtio'r Llywodraeth (GRS). At ei gilydd, bydd y gwiriadau'n ystyried gofynion y prawf person addas a phriodol, y cyfeiriwyd ato'n gynharach, a gwiriadau diogelwch.

Mae'r gwiriadau cyn penodi'n cwmpasu:

- gwiriad adnabod
- hanes cyflogaeth
- geirdaon ar gyfer y 6 blynedd diwethaf o'ch cyflogaeth
- asesiad iechyd galwedigaethol (lle bo angen)
- cymwysterau
- cofnod o unrhyw achosion a gadarnhawyd, sy'n parhau neu sydd wedi'u hatal o gamau disgyblu, cwyn, achwyniad, ymddygiad anffafriol gan weithwyr neu ganfyddiadau chwythu'r chwiban
- gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- statws cofrestru/ail-ddilysu proffesiynol (lle bo angen)

- gwiriad ansolfedd
- datganiad o unrhyw gytundebau setliad
- chwiliad o gofrestr Tŷ'r Cwmnïau i sicrhau nad ydych wedi'ch anghymhwyso fel cyfarwyddwr
- chwiliad o gofrestr y Comisiwn Elusennau o ymddiriedolwyr a ddiswyddwyd
- gwiriad gyda'r corff rheoleiddio ar gyfer y GIG a chyrff proffesiynol perthnasol lle bo angen
- gwiriad o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol
- gwiriad o ddyfarniadau gan y tribiwnlys cyflogaeth
- gwiriad o ddyfarniadau gan lysoedd sirol

### Gwiriadau adnabod

Bydd y gwiriadau adnabod a nodwyd uchod yn gofyn i chi ddarparu tri math o ddogfennaeth i wirio pwy ydych chi, ac yna bydd gofyn i chi ddarparu data personol pellach trwy lenwi ffurflen ar-lein. Bydd y ddolen i lenwi'r ffurflen hon yn cael ei hanfon atoch ar wahân.

### Geirda

Byddwn yn gofyn am ddau fath o eirda fel rhan o'n proses diwydrwydd dyladwy:

- Un math a fydd yn canolbwyntio ar asesu eich addasrwydd yn erbyn manyleb y person a'ch gallu i fodloni gofynion y rôl. I gefnogi hynny, gofynnwn i chi ddarparu manylion cyswllt dau ganolwr: un gan eich prif gyflogwr presennol neu ddiweddaraf, ac un gan berson cymwys arall a all wneud asesiad o'r fath. Dylid cynnwys manylion cyswllt y ddau ganolwr yn eich CV.

- Un math a fydd yn ymwneud â'r prawf person addas a phriodol. Os cewch eich rhoi ar y rhestr fer, byddwn yn gofyn bryd hynny i chi ddarparu manylion cyswllt Cyfarwyddwyr Adnoddau Dynol neu gyfwerth ar gyfer unrhyw sefydliadau sydd wedi eich cyflogi neu lle'r ydych wedi dal swydd Cadeirydd neu Gyfarwyddwr Anweithredol yn ystod y 6 blynedd diwethaf. Bydd y geirdaon hyn yn canolbwyntio ar ymddygiad: byddwn yn gofyn i'r sefydliadau hynny gadarnhau a oedd neu a oes unrhyw brosesau camymddygiad neu gwyno y dylem fod yn ymwybodol ohonynt. Pan fyddwn yn gofyn am fanylion cyswllt gennych, byddwn yn rhannu gyda chi'r union gwestiynau y byddwn yn eu gofyn i'ch cyn-gyflogwyr, a byddwn yn gofyn am eich caniatâd i gysylltu â nhw.

- O ran y ddwy set o eirdaon a ddisgrifir uchod, byddant ond yn cael eu casglu os ydych wedi cael cynnig y rôl a'ch bod yn fodlon, mewn egwyddor, ei derbyn.

### Asesiad iechyd galwedigaethol

Os cynigir penodiad i chi, fel rhan o'r gwiriadau cyn penodi safonol, gofynnir cyfres o gwestiynau i chi i ganfod a fydd angen i chi gael asesiad iechyd galwedigaethol cyn cael eich penodi. Bydd yr asesiad iechyd galwedigaethol yn penderfynu a ydych chi'n abl i gyflawni'r rôl ac a fyddai angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch i wneud hynny.

## Penodiad

Ar ôl cwblhau eich Datganiad Buddiannau a'ch gwiriadau cyn penodi, byddwch yn cael llythyr gan weinidogion yn eich penodi'n Ddirprwy Gadeirydd yr ASB. Bydd hwn yn cadarnhau'r telerau ac amodau ar gyfer cynnig y penodiad.

## Cyhoeddiad

Cyhoeddir pob penodiad cyhoeddus ar GOV.UK. Mae angen i'r cyhoeddiad gynnwys hyd eich penodiad, y tâl am y rôl ac a ydych wedi datgan unrhyw weithgarwch gwleidyddol. Byddwn ni'n rhannu'r cyhoeddiad drafft gyda chi cyn iddo gael ei gyhoeddi. Gellir cyhoeddi hysbysiad i'r wasg hefyd.

## Ymholiadau

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am statws eich cais neu'r broses ddethol, cysylltwch â Jessie Rourke yn Nhîm Penodiadau Cyhoeddus yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

e-bost: jessie.rourke@dhsc.gov.uk

Os byddwch chi'n dewis gwneud cais, hoffem ddiolch i chi ymlaen llaw am eich amser a'ch ymdrech.

**Byddwch chi'n cael e-bost awtomataidd i gadarnhau bod eich cais wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus.**
**Ar ôl y dyddiad cau, cewch e-bost pellach gan Dîm Penodiadau Cyhoeddus yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn cadarnhau camau nesaf y broses ddethol. Os na fyddwch wedi cael cyfeirnod eich cais o fewn 3 diwrnod gwaith i'r dyddiad cau a hysbysebwyd, cysylltwch â ni gan ddyfynnu'r cyfeirnod VAC-8961.**

## Cod Llywodraethu ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus a'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus

Mae'r Cod Llywodraethu ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus, a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet, yn nodi'r egwyddorion a ddylai fod yn sail i bob penodiad cyhoeddus. Gellir gweld y Cod Llywodraethu yn https://www.gov.uk/government/publications/governance-code-for-public-appointments.
Y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus sy'n rheoleiddio penodiadau cyhoeddus yn erbyn gofynion y Cod Llywodraethu.

Mae'r Comisiynydd yn rhoi sicrwydd annibynnol bod penodiadau cyhoeddus yn cael eu gwneud yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod. Mae'r Comisiynydd yn annibynnol ar y llywodraeth a'r Gwasanaeth Sifil. Mae rhagor o wybodaeth am rôl y Comisiynydd ar gael yn https://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk/.

## Os nad ydych chi'n hollol fodlon

Bydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ceisio prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosib a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych chi unrhyw gŵynion am y ffordd yr

ymdriniwyd â'ch cais, cysylltwch â Zubeda Seedat drwy e-bostio zubeda.seedat@dhsc.gov.uk.

Os byddwch chi'n dal i fod yn anfodlon ar ôl cael ymateb cynhwysfawr gan yr Adran, gallwch ysgrifennu at y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. Cysylltwch â:

Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus / The Commissioner for Public Appointments
1 Horse Guards Road
London SW1A 2HQ
Ffôn: 0207 271 8938
E-bost: publicappointments@csc.gov.uk

Rhaid i gŵynion i'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ymwneud â phroses penodiadau cyhoeddus a reoleiddir. Am fwy o wybodaeth, gweler: Cwynion – Y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus

## 2.3 Sut y byddwn ni'n rheoli eich gwybodaeth bersonol

Bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Ni fyddwch chi'n cael gohebiaeth na wnaethoch ofyn amdani, ar bapur nac yn electronig, o ganlyniad i anfon unrhyw wybodaeth bersonol at yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei throsglwyddo i drydydd partïon at ddibenion masnachol.

Pan fyddwn ni'n gofyn i chi am wybodaeth bersonol, rydym yn addo y byddwn yn:

- gofyn am yr hyn sydd ei angen arnom yn unig, a pheidio â chasglu gormod o wybodaeth neu wybodaeth amherthnasol
- sicrhau eich bod yn gwybod pam mae angen yr wybodaeth hon arnom
- diogelu'r wybodaeth a, lle bo'n bosib, sicrhau mai dim ond y rheiny sydd â'r hawl i gael mynediad ati a all wneud hynny
- sicrhau eich bod yn ymwybodol o'ch dewisiadau o ran rhannu gwybodaeth â ni
- sicrhau nad ydym yn ei chadw'n hirach nag sydd angen
- defnyddio'ch gwybodaeth at y dibenion yr ydych wedi'u hawdurdodi yn unig

Rydym yn gofyn i chi:

- ddarparu gwybodaeth gywir i ni
- rhoi gwybod i ni cyn gynted â phosib am unrhyw newidiadau neu os byddwch yn sylwi ar gamgymeriadau yn yr wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi

Bydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn prosesu data personol sy'n ymwneud â chi yn unol â pholisi diogelu data'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Hysbysiad preifatrwydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol – GOV.UK a pholisi diogelu data Swyddfa'r Cabinet ar gyfer penodiadau cyhoeddus yn https://apply-for-public-appointment.service.gov.uk/privacy.

Os byddwch chi'n gwneud cais, byddwn ni'n rhannu peth o'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu gydag aelodau'r Panel Asesu Ymgynghorol ar gyfer y swydd rydych chi'n gwneud cais amdani, fel y gellir asesu'ch CV a'ch llythyr ategol.

Ni fydd yr wybodaeth a roddwch at ddibenion monitro cydraddoldeb yn cael ei defnyddio yn y broses ddethol ac felly ni fydd yn cael ei rhannu gyda’r Panel Asesu Ymgynghorol sy’n asesu eich cais ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, gall Paneli Asesu Ymgynghorol adolygu’r ymateb a roddwch ynghylch gweithgarwch gwleidyddol yn ystod y cam cyfweld. Nid yw hyn yn atal penodiadau mewn unrhyw ffordd.

Mae’r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yn rheoleiddio ac yn monitro penodiadau i gyrff cyhoeddus i sicrhau bod y gweithdrefnau’n deg. Mae’r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i’r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol gadw gwybodaeth am y bobl sy’n gwneud cais am benodiadau cyhoeddus o fewn ei gylch gwaith a sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael iddo at ddibenion archwilio, os gofynnir iddo wneud hynny. Felly, mae’n bosib y bydd gwybodaeth a ddarperir gennych chi yn eich cais ar gael i’r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ac archwilwyr y Comisiynydd, a hynny ar sail gyfrinachol, er mwyn helpu i gyflawni naill ai rôl y Comisiynydd o ymchwilio’n ffurfiol i gŵynion neu at ddibenion archwilio.

# Atodiad A – Yr Asiantaeth Safonau Bwyd: Deddfwriaeth a Gwybodaeth Bellach

## Yr Asiantaeth Safonau Bwyd – Cadeirydd/Dirprwy Gadeirydd ac Aelodau

**<u>Anghymhwyso</u>**

1. Mae Aelodau o Dŷ'r Cyffredin a Chynulliad Gogledd Iwerddon wedi'u hanghymhwyso rhag cael eu penodi.

**<u>Rhybudd a Therfyniad</u>**

2. Gall y Cadeirydd/Dirprwy Gadeirydd ymddiswyddo drwy roi rhybudd i unrhyw un o'r awdurdodau priodol.

3. Gall aelod heblaw'r Cadeirydd/Dirprwy Gadeirydd ymddiswyddo drwy roi rhybudd i'r awdurdod a benododd yr aelod dan sylw.

4. Gellir diswyddo'r Cadeirydd/Dirprwy Gadeirydd neu aelod arall os yw'r naill neu'r llall o'r canlynol yn wir amdano:
   (a) mae wedi cael ei wneud yn fethdalwr (neu wedi bod yn destun rheolaethau ariannol penodedig eraill)
   (b) mae'n methu â chyflawni dyletswyddau'r swydd neu fel arall nid yw'n gallu neu nid yw'n gymwys i gyflawni'r dyletswyddau hynny

**<u>Gwaharddiad</u>**

Nid oes unrhyw ddarpariaethau wedi'u nodi mewn deddfwriaeth.

© Hawlfraint y Goron 2026

Cyhoeddwyd ar GOV.UK ar ffurf PDF yn unig.

www.gov.uk/dhsc

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi’i drwyddedu o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i:

nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/

Yn yr achosion hynny lle’r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd gofyn i chi geisio caniatâd y sawl sy’n dal yr hawlfraint dan sylw.